**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Syr Chris Bryant AS
Gweinidog Gwladol
Adran Busnes a Masnach
Llywodraeth y DU

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU

16 Hydref 2025

Annwyl Syr Chris, Rebecca a Jo,

**Amddiffyn Masnach**

Yng ngoleuni cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dur yr wythnos diwethaf, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru a'r DU yn ehangach. Fel y gwyddoch yn iawn, mae dur yn ddiwydiant hanfodol i'r wlad; mae'n cynnal llawer o swyddi o ansawdd uchel ledled Cymru. Felly, mae angen cefnogaeth gref arno drwy bolisi'r Llywodraeth.

Ddydd Iau 9 Hydref, gwnaethom gynnal cyfarfod i edrych ar ddyfodol dur Cymru. Yn y cyfarfod hwn, clywsom gan Tata a chan undebau llafur allweddol sy'n cynrychioli gweithwyr dur. Fe'i gwnaed yn gwbl glir gan Tata a'r undebau llafur y gallai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd, o gael eu gwireddu, fod yn fygythiad gwirioneddol i'r diwydiant dur yng Nghymru a'r DU yn ehangach.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, dywedodd Rajesh Nair, Prif Weithredwr Tata Steel UK wrthym fod angen i’r DU hefyd ddechrau edrych ar, neu ddylunio, y systemau cwota newydd neu’r systemau diogelu yr hoffai eu rhoi ar waith, yn debyg i’r hyn y mae’r Undeb Ewropeaidd wedi’i wneud.

Clywsom gan Alasdair McDiarmid, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol Undeb Community, fod tariffau’r Unol Daleithiau wedi bod yn broblem fawr i’r diwydiant, ond y byddai’r cynigion ar raddfa hollol wahanol gan fod 80% o ddur Cymru yn cael ei allforio i’r UE. Adleisiodd Alasdair alwadau Rajesh am gamau amddiffyn masnach cryfach, gan ddweud bod rhaid i ni gyflwyno camau gwirioneddol bendant ar ein cyfundrefn amddiffyn masnach ein hunain.

Hefyd, fe nododd Alasdair fod y defnydd domestig o ddur a gynhyrchir yn y DU ar ei isaf erioed. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod dur a gynhyrchir yn y DU yn bodloni 32% yn unig o’r galw am ddur yn y DU. Tynnodd sylw at y ffaith bod y sefyllfa hon, er ei difrifoldeb, yn cynnig cyfle hefyd. Awgrymodd y byddai cael y camau amddiffyn masnach cywir, a’r buddsoddiad cywir, yn rhoi cyfle inni dyfu ein diwydiant i adennill rhywfaint o’r gyfran honno o’r farchnad.

Yng ngoleuni cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ac amgylchedd masnachu byd-eang sy'n gynyddol anwadal, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cyfundrefn amddiffyn masnach ymatebol ar waith i sicrhau bod diwydiant dur y DU yn cael chware teg wrth gystadlu.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i gefnogi ein diwydiant dur, er mwyn osgoi rhyfel masnach niweidiol, ond hefyd i sicrhau bod ein mesurau amddiffyn masnach yn barod at angen.

Byddai’r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y trafodaethau ar gynigion y Comisiwn ac unrhyw waith i weithredu polisi amddiffyn masnach newydd i ddiogelu ein diwydiant dur.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg